

→ iach, y mae e'n hiraethu amdano, ond ei weld yn gwywo yn ei iaith ei hun, yna bydd pethau'n wahanol iawn iddo. Bydd e'n teimlo ei fod e'n colli rhywbeth pwysig os nad yw'n dysgu'r iaith honno a bod yn rhan o'r bywyd hwn ar frys.

Rhaid ymddiried yn y cnewyllyn da ym mhob un o'n cymdogion, a chredu nad yw'n awyddus i ddinistrio pethau gwerthfawr. Ond y mae'n rhaid dangos eu bod yn werthfawr ac y mae'n rhaid i fandaliaid gael eu rhwystro.

Rydym ni'n caru ein diwylliant a'n hunaniaeth. Boed inni ymdrechu caru ein cymdogion fel yr ydym ni'n caru ni ein hunain, sef byw fel gwesteiywr yn ein gwlad ein hunain. Boed inni barchu ac amddiffyn diwylliant pobl sy'n dewis byw yn ein plith. Ond rhaid iddynt hwythau hefyd ein parchu ni fel pobl gyfartal.

CHYMDEITHAS Y CYMOD  
YNG NGHYMRU

THE FELLOWSHIP OF  
RECONCILIATION IN WALES

Hoffwn gael rhagor o wybodaeth am  
Gymdeithas y Cymod.

I would like further information about the  
Fellowship of Reconciliation in Wales.

Enw / Name

Cyfeiriad / Address

Ffôn / Phone

E-bost / E-mail


Anfoner at / Please send to:

Cymdeithas y Cymod,  
d/o 3 Tai Minffordd, Rhostryfan,  
Caernarfon, Gwynedd LL54 7NF.

**Cymdeithas y Cymod**

**Fellowship of Reconciliation  
in Wales**

**Cymunedau Cymraeg  
a Mewnlfriad**



[www.cymdeithasycymod.org.uk](http://www.cymdeithasycymod.org.uk)

Elusen gofrestredig 700609

**Gyda'n gilydd gweithiwn dros  
gyfiawnder a thangnefedd**

**Mae'r cymunedau Cymraeg ar fin marw. Does neb a'i synhwyrau'n gweithio'n iawn yn gwadu hyn. Does yna ond tri chwestiwn ar ôl ynghylch hyn, bellach, sef:**

- 1) A ydynt hwy'n werth eu cadw'n fyw;**
- 2) a oes unrhyw beth a wneir yn gwneud gwahaniaeth; a**
- 3) beth yw'r ffordd foisol i wneud y gwahaniaeth hwn, os yn bosibl?**

Mae'r cwestiwn cyntaf wedi'i ateb ymhlith y Cymry Cymraeg a mewnlifwyr rhesymol sy'n parchu'u hamgylchedd. Mae'r ail gwestiwn yn achosi mwy o ddadlau, ond ar y cyfan, mae mwyafrif da o'r to hynny o farn ei bod hi'n werth cefnogi'r achos mewn rhyw fath.

Ond mae'r dadlau'n dechrau ar y trydydd cwestiwn. Wedi'r cwbl, dylem ni garu'n cymydog - ac mae digonedd o bobl uniaith Saesneg yn gymdogion i ni ymhob cwr o Gymry erbyn hyn.

Nid oes esgus o gwbl am fod yn gas iddynt mewn unrhyw ffordd, ond mae rhaid gwybod y gwahaniaeth rhwng parchu pobl a chaniatáu gweithredoedd anfoesol heb wrthdystiad. Fuasem ni ddim yn caniatáu unrhyw weithred greulon, ddinistriol, o fwlian i ryfeloedd.

***Hunanhyder yw'r allwedd. Heb fod yn falch ac yn angerddol ynglŷn â'n hunaniaeth a'n hunigoliaeth bydd y diwylliant yn marw.***

Gan fod bywyd, iaith a diwylliant Cymraeg yr un mor werthfawr â bywyd dynol mae'n hanfodol i ni ei amddiffyn, yn union yn yr un fath â phe baem ni ddim yn gwylio'n segur pan fo dyn yn cael ei ladd.

Mae angen ateb ysbrydol i'r broblem, yn ychwanegol â'r rhai da ymarferol, sy'n bodoli'n barod.

Mae gan Gymru rywbeth i'w roi, enaid unigryw, sydd wedi magu heddychiaeth ddofn, diwygiad a chydwybod foisol.

Gwrthdystiodd yr ysbryd hwnnw yn erbyn rhyfeloedd ac ymosodiadau erioed, gan geisio amddiffyn rhyddid. Hunanhyder yw'r allwedd. Heb fod yn falch ac yn angerddol ynglŷn â'n hunaniaeth a'n hunigoliaeth bydd y diwylliant yn marw.

Pan fydd Sais yn meddwl nad oes 'na ddiwylliant yng Nghymru ac, fel sawl arall, byth yn clywed yr iaith o'i gwmpas, fydd e ddim yn meddwl fod e'n sathru dim dan ei draed. Ond os bydd e'n mynd i arfer bod pobl yn dechrau sgwrs efo fe yn y Gymraeg bob amser, gweld Cymraeg ysgrifenedig o'i gwmpas yn fras ac yn amlwg, clywed yr iaith ymhobman o'i gwmpas ac ar y cyfryngau, profi bwrlwm o weithrediadau a digwyddiadau Cymraeg eu haith, gweld bywyd crefyddol →

